## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE JOINT SCRUTINY COMMITTEE (BUDGET MONITORING)**

**PWNC:** **JOINT SCRUTINY COMMITTEE (BUDGET MONITORING) - DYDD LLUN, 18 TACHWEDD 2019 DYDD LLUN, 18 TACHWEDD 2019**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: S. HEALY (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: G. Paulsen (Is-gadeirydd)
M. Cook
J. Holt
C. Meredith
D. Bevan
M. Cross
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
J. Hill
M. Moore
J. C. Morgan
L. Parsons
K. Pritchard
T. Smith

A: Lynette Jones (Swyddog)
Damien McCann (Swyddog)
Richard Crook (Swyddog)

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>**YMDDIHEURIADAU**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -<br><br>Cynghorwyr G.A. Davies, W. Hodgins, H. McCarthy, J. Millard, K. Rowson, T. Sharrem, B. Summers, H. Trollope, J. Wilkins, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett<br><br>**Aelodau Cyfethol**<br>Mr. T. Baxter<br>Mr. A. Williams | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr J. C. Morgan a P. Edwards fuddiant yn yr eitem ddilynol:-<br><br>Eitem 8 – Monitro'r Gyllideb Gyfalaf mis Ebrill hyd fis Medi Blwyddyn Ariannol 2019/20 | |
| No. 4 | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 16 Medi 2019.<br><br>Dywedodd y Cynghorydd M. Moore iddi gyflwyno ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod a dywedodd y Cynghorydd J. C. Morgan iddo adael y cyfarfod ar ddiwedd y drafodaeth ar eitem rhif 10.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **DALEN WEITHREDU**<br><br>Ystyriwyd dalen weithredu'r Pwyllgor Craffu (Monitro'r Gyllideb) a gynhaliwyd ar 16 Medi 2019, yn cynnwys:- | |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Gorfodaeth Parcio Sifil***<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y trefnwyd Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar gyfer 22 Tachwedd 2019. Gofynnodd hefyd am ychwanegu Ysgol Gynradd Sant Illtud ac Ysgol Gynradd Swffryd at y rhestr o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gorfodaeth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **DALEN BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cyflwynwyd Dalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer ystyriaeth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 7** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW -2019/2020, RHAGOLWG ALLDRO HYD 31 MAWRTH 2020 (FEL YM MIS MEDI 2019)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau sy'n rhoi rhagolwg y sefyllfa all-dro ariannol ar draws pob portffolio ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 (fel ar 30 Medi 2019) ac i adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd i symud tuag at sefyllfa all-dro cytbwys.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod hwn yn adroddiad cadarnhaol a bod y rhagolwg o'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar draws pob portffolio fel ar 31 Mawrth 2020 yn dangos amrywiad anffafriol cymharol fach o £7,200 o gymharu â chyfanswm cyllideb refeniw net o £147m. Roedd hyn yn welliant ar y rhagolwg sefyllfa a adroddwyd yn chwarter 1. Wedyn siaradodd am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>*Amgylchedd - amrywiad anffafriol £259k*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at Atodiad 4 sy'n amlinellu'r camau i gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r amrywiad anffafriol, yn neilltuol ostwng dwfn-lanhau canol trefi a chwistrellu chwyn. Dywedodd fod y weinyddiaeth bresennol, yn y Cyngor ym mis Gorffennaf 2019, wedi rhoi ymrwymiad i roi blaenoriaeth i lanhau strydoedd dros y 5 mlynedd nesaf a gofynnodd Aelod os bwriedir symud ymaith o'r flaenoriaeth honno. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd hefyd at ddatblygu ail HWRC yn Roseheyworth a'r costau refeniw cysylltiedig. O gofio am yr amrywiad anffafriol o fewn Portffolio'r Amgylchedd, gofynnodd os yw'n ariannol hyfyw i'r Cyngor ac os yw'r HWRC wedi disodli blaenoriaeth yr Arweinyddiaeth ar gyfer glanhau strydoedd. Mynegodd bryder fod yr amrywiad anffafriol o fewn y portffolio ar ôl trosglwyddo arian i'r portffolio, a chyn i'r HWRC ddod yn weithredol.<br><br>Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio fod glanhau strydoedd yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor ond bod angen y camau gweithredu hyn i gael cyllideb gytbwys. Un o'r heriau allweddol oedd y cynnydd mewn didoli bagiau du ond mae ailgylchu'n parhau i wella a gobeithir y byddai'n hybu gostyngiad mewn costau er mwyn cael cyllideb gytbwys, ac wedyn ein galluogi i barhau â'r gweithgareddau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w cyflawni.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os medrid cynnal rhai o'r gweithgareddau glanhau stryd 'yn fewnol' er mwyn gostwng costau.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod rhai o'r camau gweithredu a amlinellwyd yn yr adroddiad yn rhai tymor byr ac y byddai cyfle i adolygu ac ystyried cyfleoedd eraill wrth i'r gyllideb fynd rhagddi.<br><br>Dywedodd Aelod nad oedd dim yn yr adroddiad i awgrymu bod blaenoriaethau'r Cyngor wedi newid yn wleidyddol. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r angen ar gyfer 'torri'n ôl' er mwyn cael cyllideb gytbwys a gall fod angen hyn ar draws pob portffolio.<br><br>*<u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u>*<br><br>Yng nghyswllt cynhyrchu incwm, gofynnodd Aelod os oes unrhyw gynigion i ehangu'r cyfleusterau sydd ar gael yn Nhŷ Augusta.<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol y cynhaliwyd astudiaeth dichonolrwydd ac y sicrhawyd cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer ardal Gwent yn ehangach.<br><br>*<u>Safle Carafanau Cwmcrachen</u>*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am broblemau cyflenwad | |

| | | |
|---|---|---|
| | trydan yn y safle, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r cwmni ynni am osod mesuryddion unigol yn y safle.<br><br>Gofynnodd Aelod os y gallai'r Awdurdod roi cymhorthdal at gost gosod y mesuryddion er mwyn cyflymu'r broses, a dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n ymchwilio hynny.<br><br>*Parc yr Ŵyl*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio fod gan yr Awdurdod gytundeb rheoli gyda pherchnogion y safle i gynnal a chadw'r safle. Fodd bynnag, ystyrir gwariant manwl yn y dyfodol.<br><br>*Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y risg a ddynodwyd yn adran 5.2.3 yr adroddiad h.y. y risg efallai na fyddid yn dyfarnu Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn y dyfodol a gofynnodd os oedd unrhyw arwydd fod yr arian yn dod i law.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol nad oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd a'i bod yn debygol fod hyn oherwydd yr oedi gyda'r gyllideb, ond gobeithir y derbynnir yr arian.<br><br>*Ffioedd a Chostau*<br><br>Mynegodd Aelod bryder am nifer o amrywiadau anffafriol o fewn ffioedd a chostau, yn neilltuol drwyddedu.<br><br>Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio yng nghyswllt ffioedd trwyddedu y cyflwynwyd cynnig i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i newid y ffioedd fel eu bod yn cyfateb yn well gyda'r model adennill costau, fodd bynnag nad oedd y Pwyllgor wedi derbyn y cynnig.<br><br>*CCTV*<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ym mis Ionawr 2020. | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Wardeiniaid Cŵn*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio mai'r contract presennol yw'r opsiwn mwyaf effeithiol ar hyn o bryd a'i fod yn gweithredu ar sail cost niwtral.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Cydbwyllgor Craffu'r Gyllideb yn:<br><br>• Rhoi her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad;<br>• Ystyried y cynlluniau gweithredu yn Atodiad 4 a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r rhagolwg o amrywiadau anffafriol ar ddiwedd Medi 2019; ac<br>• Argymell bod y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb a nodir yn Atodiad 5 sy'n fwy na £250,000. | |
| **No. 8** | **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, MIS EBRILL I FIS MEDI, BLWYDDYN ARIANNOL 2019/20**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr J. C. Morgan a P. Edwards fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf gwirioneddol a rhagolwg pob Portffolio o gymharu â chyllid a gymeradwywyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/2020.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod hwn yn adroddiad cadarnhaol arall, gyda'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar 30 Medi 2019 yn dangos amrywiad nil o gymharu â chyfanswm cyllideb gyfalaf o £19.16m. Rhagwelid y byddai'r holl wariant cyfalaf o fewn y flwyddyn yn cael ei ariannu'n llawn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi a gofynnodd os oedd y trefniadau agor arfaethedig wedi eu cynnwys yn y cais am gyllid a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio cyn belled ag y gwyddai ef nad oedd unrhyw ofyniad am fanylion o fewn y cynnig yng nghyswllt trefniadau agor.<br><br>*<u>Adeiladu Ysgol Cyfrwng Cymraeg Newydd Band B</u>*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod pob llwybr o gyllid refeniw yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod y Cydbwyllgor Monitro'r Gyllideb:<br><br>• Wedi rhoi her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad;<br>• Yn parhau i gefnogi gweithdrefnau rheolaeth ariannol a gytunwyd gan y Cyngor;<br>• Yn nodi'r gweithdrefnau rheoli a monitro'r gyllideb sydd yn eu lle i ddiogelu cyllid yr Awdurdod;<br>• Yn ystyried y cynigion cyllid yng nghyswllt prosiectau Rhaglen Gwella Unedau Diwydiannol a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRC) ac argymell hynny i'r Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 9** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi rhagolwg sefyllfa cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2019/2020 fel yn Chwarter 2 (30 Medi 2019). Mae'r rhagolwg o falans y gronfa gyffredinol wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 o £6.136m yn 4.58% o'r gwariant refeniw net a adroddwyd yn ffurflenni All-dro Refeniw 2018/19. Byddai'r gronfa gyffredinol wrth gefn felly yn £0.775m sy'n uwch na'r lefel targed 4% o £5.361m.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod y Cydbwyllgor Craffu'r Gyllideb yn:<br><br>• Nodi'r rhagolwg cynnydd a fwriedir i'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn i 4.58% (uwch na'r lefel targed 4%) ar gyfer 2019/2020 a blynyddoedd y dyfodol gan gryfhau gwytnwch ariannol y Cyngor; | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ystyried yr effaith a gaiff y rhagolwg o'r amrywiad anffafriol o £0.007m ar gyfer 2019/20 ar y targed Cronfa Gyffredinol wrth Gefn; a<br>• Pharhau i herio gorwariant y gyllideb a gweithredu cynlluniau gweithredu gwasanaeth priodol, lle mae angen. | |